Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i’r safonau addysg a hyfforddiant

Tachwedd 2025 a Chwefror 2026

Darganfod Mwy: [www.hcpc-uk.org/consultations/](www.hcpc-uk.org/consultations/)

# Cynnwys

**Rhagair** 3

**Cyflwyniad** 5

**Yr ymgynghoriad** 5

**Adolygiad o'r safonau addysg a hyfforddiant** 6

- Cam 1: Paratoi ac ymchwil 6
- Cam 2: Gwrando a chasglu mewnwelediadau 6
- Cam 3: Llunio cynigion gyda'n rhanddeiliaid 6
- Cam 4: Paratoi ymgynghoriad 6
- Cam 5: Dadansoddi'r ymgynghoriad a chwblhau'r newidiadau 7
- Cam 6: Gweithredu 7

**Newidiadau allweddol arfaethedig** 8

1. Diwygiadau strwythurol allweddol 8
2. Newidiadau i SET 1 8
3. Cryfhau ein safonau mewn perthynas â modelau cyflenwi addysg amrywiol 9
4. Egluro ein safonau ynghylch defnyddio technoleg 9
5. Ymgorffori EDI o fewn y safonau 9

**Dogfennau ategol yr ymgynghoriad** 9

**Cwestiynau ymgynghori** 10

## Rhagair

Mae safonau addysg a hyfforddiant (SETau) y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yn ganolog i sicrhau addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel ar draws y 15 proffesiwn rydym yn eu rheoleiddio. Mae'r gweithgaredd gweithredu a sicrhau ansawdd yn ôl y safonau hyn yn rhan greiddiol o sut rydym yn amddiffyn y cyhoedd. Drwy bod darparwyr addysg yn sicrhau bod dysgwyr yn bodloni ein safonau proffesiynol, rydym yn gallu helpu i atal gofal anniogel neu aneffeithiol yn y dyfodol. Mae'r safonau addysg a hyfforddiant yn nodi sut mae'n rhaid i ddarparwyr addysg baratoi dysgwyr i fodloni ein safonau proffesiynol, gan sicrhau bod rhaglenni wedi'u trefnu'n iawn, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn gyson â diogelu'r cyhoedd.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno ein diwygiadau arfaethedig i'r safonau addysg a hyfforddiant. Fe'i datblygwyd drwy ymgysylltu'n helaeth â darparwyr addysg, dysgwyr, defnyddwyr gwasanaethau, cyrff proffesiynol, a thimau mewnol yr HCPC. Rydym hefyd wedi cynnull paneli arbenigol gyda rhanddeiliaid allanol ar themâu allweddol gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI), efelychu mewn dysgu, technolegau fel deallusrwydd artiffisial, a gwahanol fodelau dysgu.

Gan ddefnyddio ein hymgysylltiad cyn yr ymgynghoriad, rydym yn cynnig set ddiwygiedig o safonau addysg a hyfforddiant. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion ac yn cwblhau'r safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cymeradwyo unrhyw newidiadau, byddwn yn dechrau cyfnod o weithredu i sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i'r safonau addysg a hyfforddiant yn cael eu deall yn ddigonol, a bod rhanddeiliaid wedi paratoi'n llawn ar gyfer dod â'r safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig i rym. Yna byddwn yn diweddaru'r canllawiau atodol i adlewyrchu'r safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig.

Nod y diwygiadau arfaethedig yw:

- sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn profiadau addysg o ansawdd uchel a theg, waeth beth fo llwybr y dysgwr i'r proffesiwn;
- cryfhau’r safonau i gefnogi darparwyr addysg yn well wrth baratoi dysgwyr ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol;
- gwella eglurder a defnyddioldeb drwy newidiadau strwythurol, gan gynnwys rhaniad ffurfiol rhwng safonau ar lefel sefydliad a lefel rhaglen;
- ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y safonau i gryfhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws pob agwedd ar ddarpariaeth addysg;

- sicrhau bod y safonau’n ddiogel ar gyfer y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun technoleg sy’n esblygu’n gyflym (megis deallusrwydd artiffisial); a
- sicrhau cysondeb â safonau eraill yr HCPC a chefnogi eu gweithredu gan ddarparwyr addysg.

Rydym yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn fel rhan o'n hymgysylltiad cyn ymgynghori. Mae eu mewnwelediadau wedi llywio'r newidiadau arfaethedig ac wedi ein helpu i nodi meysydd lle gall y safonau gefnogi addysg gynhwysol, sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac o ansawdd uchel yn well.
Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r diwygiadau arfaethedig i'r safonau addysg a hyfforddiant ac yn gwahodd adborth gan bob rhanddeiliad. Bydd eich barn yn ein helpu i fireinio'r safonau cyn eu cyhoeddi'n derfynol yn 2026.

## Cyflwyniad

Rôl statudol yr HCPC ydy diogelu’r cyhoedd drwy reoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn hyrwyddo arfer proffesiynol o ansawdd uchel drwy:

- osod safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ymarfer;
- cymeradwyo rhaglenni addysg;
- cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sydd yn bodloni’n safonau; a
- gweithredu pan nad ydy gweithwyr proffesiynol yn bodloni ein safonau.

Mae'r safonau addysg a hyfforddiant yn nodi sut mae'n rhaid i ddarparwyr addysg baratoi dysgwyr ar gyfer ymarfer proffesiynol. Maent yn sicrhau bod darparwyr addysg wedi'u trefnu'n briodol i ddarparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn ymgysylltu cyn ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid, paneli arbenigol, ac ymchwil fewnol.

## Yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ein rhanddeiliaid ar y safonau addysg a hyfforddiant (SETau) diwygiedig drafft. Mae'r safonau addysg a hyfforddiant yn rhan graidd o'n fframwaith rheoleiddio ac yn nodi sut mae'n rhaid i ddarparwyr addysg baratoi dysgwyr ar gyfer ymarfer proffesiynol. Maent yn sicrhau bod rhaglenni wedi'u trefnu'n iawn, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cyd-fynd â diogelu'r cyhoedd.

Mae'r safonau addysg a hyfforddiant yn bwysig i ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr addysg, dysgwyr, defnyddwyr gwasanaethau, cyrff proffesiynol a chyflogwyr. Maent hefyd yn hanfodol i sut mae'r HCPC yn cyflawni ei waith fel rheoleiddiwr, yn enwedig wrth gymeradwyo a monitro rhaglenni addysg a hyfforddiant i sicrhau bod y rhai sy'n cwblhau rhaglenni yn bodloni ein gofynion ar gyfer cofrestru.

Mae adolygiadau rheolaidd o'r safonau addysg a hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu arfer cyfredol mewn addysg a hyfforddiant, yn cefnogi arloesedd mewn addysg ac yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau strategol – gan gynnwys y rhai a nodir yn ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI). Mae'r adolygiad hwn hefyd yn ymateb i ddatblygiadau mewn technoleg, a'r amrywiaeth gynyddol o fodelau darparu addysg.

Yn y ddogfen hon fe welwch wybodaeth am y newidiadau arfaethedig i'r safonau addysg a hyfforddiant, y rhesymeg y tu ôl iddynt a sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Cyhoeddir y safonau diwygiedig arfaethedig yn y ddogfen hon ac ar ein gwefan. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am **13 wythnos o ddechrau mis Tachwedd 2025 i ddechrau mis Chwefror 2026**. Rydym yn croesawu ymatebion gan bob rhanddeiliad a byddwn yn defnyddio eich adborth i fireinio'r safonau cyn eu cyhoeddi'n derfynol yn 2026.

## Adolygiad o'r safonau addysg a hyfforddiant

Mae angen adolygu'r safonau addysg a hyfforddiant (SETau) yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn hygyrch, ac yn addas at y diben. Cwblhawyd yr adolygiad llawn diwethaf o'r safonau addysg a hyfforddiant yn 2017. Ym mis Mawrth 2024, dechreuon ni'r adolygiad nesaf o'r safonau addysg a hyfforddiant, fel rhan o'n rhaglen ehangach o ddatblygu a gwella safonau.

Mae'r adolygiad yn cynnwys chwe cham allweddol:

- **Cam 1: Paratoi ac ymchwil**

Roedd hyn yn cynnwys nodi cwmpas yr adolygiad, sefydlu ein grwpiau rhanddeiliaid a'n cynllun ymgysylltu, a pharhau i gynnal ymchwil drwy gydol yr adolygiad.
Mae agwedd ymchwil y cam hwn yn parhau i redeg drwy gydol yr adolygiad.

- **Cam 2: Gwrando a chasglu mewnwelediadau**

Parhaodd y cam hwn o fis Mai i fis Awst 2024. Fe wnaethon ni archwilio pynciau'r adolygiad, casglu mewnwelediadau gan amrywiaeth o randdeiliaid a cheisio eu barn am y safonau cyfredol.

- **Cam 3: Llunio cynigion gyda'n rhanddeiliaid**

Parhaodd y cam hwn o fis Awst 2024 i fis Ebrill 2025. Fe wnaethon ni rannu syniadau cychwynnol gyda rhanddeiliaid a derbyn adborth arnynt. Defnyddiwyd ein paneli arbenigol i gasglu barn ar bob pwnc a myfyrdodau ar ganlyniadau ar gyfer yr adolygiad. Diweddarwyd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd.

- **Cam 4: Paratoi ymgynghoriad**

Dyma ein cam presennol. Rydym wedi paratoi'r safonau diwygiedig ar gyfer ymgynghori. Bydd yr ymgynghoriad ar agor am gyfnod o 13 wythnos o fis Tachwedd 2025 ymlaen. Byddwn yn ymgymryd ag amrywiol weithgareddau cyfathrebu ac

ymgysylltu i annog ymatebion i'r ymgynghoriad.

- **Cam 5: Dadansoddi'r ymgynghoriad a chwblhau'r newidiadau**

Bydd y cam hwn yn dechrau ddechrau 2026. Bydd yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd gennym, yn ogystal â diweddariadau i'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

- **Cam 6: Gweithredu**

Rydym yn cynnig y bydd y cam hwn yn digwydd dros gyfnod o tua 12 mis, ac rydym wedi cynnwys cwestiynau yn yr ymgynghoriad ynghylch pa mor hir y dylai'r cam hwn fod. Byddwn yn cyfleu unrhyw newidiadau i bob rhanddeiliad perthnasol, ac yn myfyrio ar effaith y newidiadau a'r adolygiad.

Drwy gydol yr adolygiad rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys darparwyr addysg, dysgwyr, defnyddwyr gwasanaethau, cyrff proffesiynol a chydweithwyr yn yr HCPC. Drwy gydol ein gwaith ymgysylltu, rydym wedi anelu at ddeall:

- sut mae rhanddeiliaid yn defnyddio'r safonau addysg a hyfforddiant yn ymarferol;
- pa newidiadau mewn addysg a darpariaeth iechyd a gofal y dylid eu hadlewyrchu yn y safonau;
- unrhyw bryderon neu heriau sydd gan randdeiliaid gyda'r safonau cyfredol; a
- sut mae datblygiadau ar draws y sector, fel newidiadau technolegol a phwysau ar y gweithlu, yn effeithio ar gymhwyso'r safonau addysg a hyfforddiant.

Fel rhan o'n gweithgaredd cyn-ymgynghori, fe wnaethom gynnal ymchwil desg, cynnal pum gweithdy (gyda'r tîm addysg, darparwyr addysg, dysgwyr a defnyddwyr gwasanaethau), cynnull pum panel arbenigol ar bedwar thema allweddol (EDI, technoleg (gan gynnwys AI), gwahanol fodelau dysgu ac efelychu mewn dysgu), a chynnal arolwg rhanddeiliaid. Fe helpodd y gweithgareddau hyn ni i nodi themâu a meysydd allweddol i'w datblygu a newid ein safonau. Roedd y themâu canolog yn cynnwys:

- ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ar draws pob agwedd ar addysg;
- cefnogi modelau dysgu amrywiol, gan gynnwys prentisiaethau a rhaglenni dan arweiniad cyflogwyr;
- sicrhau amgylcheddau dysgu teg a diogel sy'n seiliedig ar ymarfer;
- hyrwyddo defnydd moesegol ac effeithiol o dechnolegau, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial ac efelychu;
- cryfhau llywodraethu partneriaethau ac atebolrwydd; a
- gwella eglurder, hygyrchedd a defnyddioldeb y safonau.

Mae'r themâu hyn wedi llywio'r diwygiadau arfaethedig i'r safonau addysg a hyfforddiant. Nod y newidiadau yw sicrhau bod y safonau'n parhau i fod ar lefel uchel ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, tra'n cael eu cymhwyso ar draws ystod eang o leoliadau addysg a modelau cyflwyno.

## Newidiadau allweddol arfaethedig

Ar hyn o bryd mae 52 o safonau yn y safonau addysg a hyfforddiant cyfredol. Rydym yn cynnig newid i raddau amrywiol i bob un o'r 52 safon bresennol (gan gynnwys uno rhai safonau), ac ychwanegu pum safon newydd. Mae hyn yn arwain at set ddiwygiedig o 46 o safonau arfaethedig. Gellir crynhoi'r diwygiadau arfaethedig fel a ganlyn:

- 17 safon gyda diwygiadau mawr, megis cyflwyno disgwyliadau cryfach neu ymgorffori dibenion un arall o'r safonau presennol;
- 15 safon gyda diwygiadau cymedrol, megis egluro disgwyliadau neu roi mwy o bwyslais ar ganlyniadau yn y safon;
- 8 safon gyda mân ddiwygiadau, fel addasu iaith i fod yn fwy gweithredol neu i fod yn fwy cydnaws â safonau eraill;
- 12 safon wedi'u 'dileu' drwy gael eu hymgorffori mewn safon arall; a
- 5 safon newydd ar ddefnyddio technoleg a chymhwysedd, cefnogaeth staff, adborth i ddysgwyr a dylunio sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r newidiadau allweddol i'r safonau wedi'u crynhoi isod.

### 1. Diwygiadau strwythurol allweddol

Rydym wedi ffurfioli'r rhaniad rhwng sefydliadau a rhaglenni o fewn y safonau i wahaniaethu'n glir ble mae'r safonau'n eistedd, ac i gefnogi atebolrwydd a gweithredu ar draws gwahanol rannau o'r sefydliad. Rydym hefyd wedi creu grwpiau thematig newydd ar gyfer y safonau, gan eu haildrefnu a'u grwpio'n themâu sy'n adlewyrchu dilyniant rhesymegol yn seiliedig ar sut mae rhaglenni'n cael eu datblygu a'u cyflwyno.

Rydym hefyd yn cynnig rhagair newydd i'r safonau, a fydd yn eu hategu ac yn helpu darparwyr addysg i'w dehongli a'u cymhwyso. Mae'r rhestr termau hefyd wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i'r safonau. Bydd y canllawiau hefyd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir.

### 2. Newidiadau i SET 1

Rydym wedi symud y cymwysterau a ddisgwylir fel arfer o eiriad y safon hon i'r canllawiau. Rydym hefyd wedi darparu eglurder pellach drwy amlinellu meini prawf newydd ar gyfer pennu cymwysterau cyfatebol y gellid eu derbyn. Nid ydym yn cynnig newid y gofynion ar gyfer cymwysterau gofynnol.

3. **Cryfhau ein safonau mewn perthynas â modelau cyflenwi addysg amrywiol**

Rydym wedi drafftio diwygiadau arfaethedig a fydd yn berthnasol yn yr un modd ar draws rhaglenni traddodiadol neu rai nad ydynt yn draddodiadol. Nid ydym wedi creu safonau ar wahân ar gyfer modelau dysgu penodol. Yn hytrach, mae'r safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig yn ymgorffori disgwyliadau sy'n berthnasol ar draws pob cyd-destun, wedi'u cefnogi gan ganllawiau ac enghreifftiau lle bo angen.

4. **Egluro ein safonau ynghylch defnyddio technoleg**

Rydym wedi cyflwyno safonau i fframio ein disgwyliadau o ran y defnydd priodol, moesegol ac effeithiol o dechnoleg. Rydym hefyd wedi diwygio safonau presennol i annog integreiddio technoleg mewn addysg mewn modd ystyriol.

5. **Ymgorffori EDI o fewn y safonau**

Rydym wedi diwygio'r safonau gan greu dull mwy gweithredol a chyfarwyddiadol o ymdrin â materion EDI mewn addysg a hyfforddiant. Rydym wedi ymgorffori EDI drwy gydol y safonau i sicrhau nad yw'n cael ei drin fel mater ar ei ben ei hun ond ei fod wedi'i ymgorffori ar draws dyluniad, darpariaeth a diwylliant rhaglenni.

## Dogfennau ategol yr ymgynghoriad

Er mwyn cefnogi dealltwriaeth o'r newidiadau arfaethedig, rydym wedi cynhyrchu dogfen sy'n amlinellu pob diwygiad i'r safonau a'r rhesymeg y tu ôl iddynt. Mae'r safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig drafft llawn ar gael yn y ddogfen ymgynghori hon ac ar ein gwefan.

Rydym yn croesawu eich adborth ar y newidiadau arfaethedig ac yn edrych ymlaen at ymgysylltu â'ch barn. Bydd eich mewnbwn yn ein helpu i sicrhau bod y safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig yn cefnogi addysg gynhwysol o ansawdd uchel, fydd yn barod ar gyfer y dyfodol ar gyfer y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Isod, fe welwch set o gwestiynau i arwain eich ymateb i'r ymgynghoriad.

## Cwestiynau ymgynghori

**C1:** Pa effaith mae'r strwythur diwygiedig (gan gynnwys y rhaniad rhwng y sefydliad/rhaglen a'r eirfa) wedi'i chael ar hygyrchedd a dealltwriaeth o'r safonau? Eglurwch eich rhesymau pam mae pethau wedi gwella ai peidio.

(Wedi ei waethygu / Dim newid / Wedi ei wella / Ddim yn gwybod)

**C2:** Pa mor dda mae'r safonau diwygiedig yn cefnogi ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ar draws pob agwedd ar addysg a hyfforddiant, a ble y gellid gwneud gwelliannau pellach?

(Credaf eu bod yn gwaethygu ymgorffori EDI / Niwtral / Credaf eu bod yn cefnogi ymgorffori EDI / Ddim yn gwybod)

**C3:** A yw'r safonau diwygiedig yn mabwysiadu'r dull cywir o gefnogi addysg a hyfforddiant cynhwysol a mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad, cyfranogiad a chwblhau cyrsiau? Esboniwch eich rhesymeg, os gwelwch yn dda.

(Anghytuno eu bod yn mabwysiadu'r dull cywir / Niwtral / Credu eu bod yn mabwysiadu'r dull cywir / Ddim yn gwybod)

**C4:** A yw'r safonau diwygiedig yn nodi disgwyliadau digonol i ddarparwyr ynghylch rôl briodol technoleg mewn addysg? Sut y gellid eu gwella ymhellach?

(Anghytuno eu bod wedi nodi disgwyliadau digonol / Niwtral / Cytuno eu bod wedi nodi disgwyliadau digonol / Ddim yn gwybod)

**C5:** A yw'r safonau diwygiedig yn berthnasol i bob model dysgu, gan gynnwys prentisiaethau, dysgu cyfunol a rhaglenni dan arweiniad cyflogwyr? Eglurwch unrhyw fylchau rydych chi'n credu sy'n bresennol.

(Ddim yn berthnasol i'r un ohonynt / Yn berthnasol i rai / Yn berthnasol i bob un)

**C6:** A yw'r disgwyliadau ynghylch gweithio mewn partneriaeth a llywodraethu ar y cyd yn glir ac yn briodol ar gyfer pob lleoliad lle cyflwynir rhaglenni? Beth gellid ei wella?

(Anghytuno eu bod yn glir ac yn briodol / Niwtral / Cytuno eu bod yn glir ac yn briodol / Ddim yn gwybod)

**C7:** A oes unrhyw agweddau ar y safonau diwygiedig a allai arwain at oblygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth i grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

- ☐ Oedran
- ☐ Anabledd
- ☐ Ailbennu rhywedd
- ☐ Priodasau a phartneriaethau sifil
- ☐ Beichiogrwydd a mamolaeth
- ☐ Ethnigrwydd
- ☐ Crefydd neu gredo
- ☐ Rhyw
- ☐ Cyfeiriadedd rhywiol

**C8:** Pa heriau, os o gwbl, ydych chi'n eu rhagweld wrth weithredu'r safonau diwygiedig arfaethedig o fewn eich sefydliad neu sector?

**C9:** Unwaith y bydd unrhyw newidiadau i'r safonau wedi'u cwblhau, faint o amser fyddai ei angen ar eich sefydliad i weithredu'r newidiadau?

**C10:** Oes gennych chi sylwadau, pryderon neu argymhellion ychwanegol ynglŷn â'r diwygiadau arfaethedig i safonau addysg a hyfforddiant nad ydynt eisoes wedi'u trafod uchod?